

**GWEITHDREFN – CRYNODEB**

Sylwer bod y ddogfen hon yn grynodeb o weithdrefnau lechyd a Diogelwch yr Heddlu.  
Gellir cael copïau llawn drwy gais Rhyddid Gwybodaeth.

<b>Teitl:</b>	<b>Polisi lechyd a Diogelwch Cyffredinol (Trefniadau lechyd a Diogelwch)</b>	
Maes Arfer / Busnes:	Gweinyddu lechyd a Diogelwch	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Iechyd a Diogelwch	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	24/06/98	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: cwblhawyd
Adolygwyd Ddiwethaf:	12/09/19	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Medi 2020	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif y Fersiwn:	16 (cryno)	Prif Gwnstabl
<b>AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:</b>		
Mae'r Polisi lechyd a Diogelwch Cyffredinol (Trefniadau lechyd a Diogelwch) ar waith i ddiogelu iechyd a llesiant pob aelod o staff Heddlu De Cymru, eraill sy'n gweithio ar ein safleoedd neu'n ymweld â nhw, contractwyr ac aelodau o'r cyhoedd.		
<b>ASESIAD RISG CYFFREDINOL:</b>		
Gweler yr Asesiadau Risg Cyffredinol sy'n atodedig i Ganllawiau a Gweithdrefnau lechyd a Diogelwch penodol.		
<b>GWEITHDREFN:</b>		
<b>Egwyddorion cyffredinol</b>		
Bydd yr heddlu yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, rheoliadau cysylltiedig, Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a 'Chodau Ymarfer Cymeradwy' perthnasol eraill. Mae'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn disgwyl i bob:		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddog yr Heddlu, aelod o Staff yr Heddlu ac aelod o'r Gwnstabliaeth Wirfoddol, ni waeth beth yw ei r(h)eng, ei (g)radd na'i swydd,</li> <li>• a phob contractwr sy'n gweithio ar ran y gwasanaeth i gydweithredu'n llawn i gyflawni'r polisi hwn.</li> </ul>		
<b>Trefniadau cyffredinol ar gyfer iechyd a diogelwch yn y gwaith</b>		
Mae'r trefniadau cyffredinol hyn yn ategu'r datganiad polisi a'r adran ar drefniadaeth. Nid ydynt yn hollgynhwysfawr a bydd trefniadau penodol sy'n ymwneud â gweithrediadau sy'n benodol i swyddogaethau unigol yn cael eu cyhoeddi naill ai'n gorfforaethol neu gan yr Uned Reoli Sylfaenol/adran lle y bo'n berthnasol.		
Bydd yr heddlu yn sicrhau bod pob un o'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch newydd neu ddiwygiedig wedi cael eu hawdurdodi a'u cymeradwyo drwy'r weithdrefn ar gyfer llunio polisiâu. Polisi Heddlu De Cymru yw y caiff pob un o'r polisiâu sy'n rhan o'r system rheoli iechyd a diogelwch ffurfiol eu datblygu, eu dilysu, eu cyhoeddi a'u rheoli yn unol ag egwyddorion Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu.		
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am gymeradwyo dogfennau'r system rheoli iechyd a diogelwch.		
Y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch sy'n gyfrifol am lunio, adolygu a chynnal y rhestr o bob un o bolisiâu a gweithdrefnau'r system rheoli iechyd a diogelwch.		
<b>Rheoli lechyd a Diogelwch</b>		
<b>System rheoli iechyd a diogelwch</b>		

Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod bod rheoli risgiau i iechyd a diogelwch yn y gwaith a'r amgylchedd yn hanfodol i lwyddiant ei weithgareddau.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cydweithredu – cyfranogiad gan y staff
- Ymgynghori – â chynrychiolwyr cyflogeion
- Cyfathrebu – rhannu gwybodaeth rhwng rhanddeiliaid allweddol
- Cymhwysedd – ar gyfer anghenion sefydliadol ac anghenion swyddi unigol

### **Cynllunio – corfforaethol a gweithredol**

Cynllunio yw'r peth allweddol i sicrhau bod ymdrechion iechyd a diogelwch yr heddlu yn gweithio mewn gwirionedd. Mae'n hanfodol bod y safon reoli yn dilyn HSG (65): 2013

Mae cynllunio yn gofyn am y canlynol:

- Gosod amcanion mesuradwy a chyflawnadwy, nodi peryglon, asesu risgiau a datblygu dull gweithredu pragmataidd a chadarnhaol;
- Lleihau nifer y digwyddiadau (damweiniau, anafiadau a damweiniau fu bron â digwydd), darparu hyfforddiant addas i'r rôl a phrotocolau mesur a monitro rhagweithiol/ymatebol;
- Cynllunio strategol wedi ei strwythuro ar sail dull gweithredu cyfannol o reoli problemau sy'n ymwneud â phobl, gan gwmpasu pob agwedd ar arbenigedd iechyd, diogelwch a lles.

### **Asesu Risg**

Bydd Heddlu De Cymru yn asesu'r risgiau i iechyd a diogelwch y mae swyddogion yr heddlu, cwnstabiliaid gwirfoddol a staff yr heddlu yn eu hwynebu yn eu gweithleoedd ac wrth ymgymryd â'u dyletswyddau, ac yn cymryd camau priodol i ddileu neu leihau'r risgiau hyn.

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gofyn am i bob cyflogwr wneud asesiad addas a digonol o'r risgiau i iechyd a diogelwch cyflogeion ac eraill yn y gwaith a phobl eraill y gellir effeithio arnynt, a gwneud y canlynol:

- Cofnodi canfyddiadau arwyddocaol yr asesiad yn ysgrifenedig a nodi unrhyw grŵp o weithwyr y nodwyd eu bod yn wynebu risg sylweddol.
- Adolygu unrhyw asesiad pan fo rheswm dros amau nad yw'n ddilys mwyach neu pan gafwyd newid sylweddol o ran y materion sy'n gysylltiedig ag ef, ar ôl ymchwilio i unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau sy'n codi.
- Cyflwyno mesurau atal a diogelu i reoli'r risgiau a nodwyd.

### **Systemau gweithio diogel**

Mae system gweithio yn gyfres o weithdrefnau y mae'n rhaid gwneud gwaith yn unol â nhw. Mae angen cael systemau gwaith diogel lle na ellir dileu peryglon a lle mae peth risg yn dal i fodoli. Wrth ddatblygu systemau gweithio diogel, ystyriwch sut y gwneir y gwaith a'r anawsterau a allai godi a'ch amlygu chi neu eich swyddogion/staff i risg. Yna datblygwch gyfres o weithdrefnau sy'n nodi sut y bydd yn rhaid gwneud y gwaith er mwyn lleihau'r risg o ddamwain neu anaf.

### **Mesur perfformiad**

Yn yr un ffordd ag y mae angen i heddlu fonitro ei ddangosyddion cyllid a dangosyddion perfformiad eraill, mae angen iddo fesur ei berfformiad iechyd a diogelwch er mwyn cadarnhau a yw'n effeithiol, drwy'r dulliau canlynol:

**Monitro gweithredol** – er mwyn sicrhau y caiff safonau eu rhoi ar waith, eu monitro ac y cydymffurfir â nhw.

**Monitro ymatebol** – er mwyn atal pethau rhag digwydd eto yn ogystal â dysgu gwersi.

**Archwiliadau** – archwilio elfennau system rheoli iechyd a diogelwch yr Heddlu, gan gydymffurfio â chanllaw presennol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sef HSG(65), a deddfwriaeth ddiweddar.

**Adolygu** – mae angen cynnal adolygiadau yn systemataidd, gan adolygu perfformiad yn rheolaidd, ar sail data sy'n deillio o'r canlynol:

- Gweithgareddau monitro ac asesu;
- Archwiliadau annibynnol o'r holl system rheoli iechyd a diogelwch.

### **Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch**

Mae rhwymedigaeth ar y sefydliad i ddarparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth a bydd lefel ofynnol pob agwedd yn dibynnu ar y rôl unigol, y risg a geir a chymhlethdod y mesurau rheoli sy'n ofynnol.

### **Rheoli Damweiniau / Digwyddiadau**

Caiff pob damwain ei chofnodi a chynhelir ymchwiliad, a lle y bo'n bosibl, rhoddir mesurau rheoli ychwanegol posibl neu system gweithio fwy diogel ar waith. Rydym yn deall ein dyletswyddau i roi gwybod am ddigwyddiadau o dan reoliadau statudol o fewn y terfynau amser priodol.

### **Contractwyr**

Rydym yn disgwyl i gontractwyr gydymffurfio â'n gweithdrefnau iechyd a diogelwch a chyflwyno copïau o'u polisi iechyd a diogelwch, eu hyswiriant a'u hasesiadau risg, ac asesu eu gallu i weithio'n ddiogel heb beri risg i'n staff na'n gwirfoddolwyr.

Dylid nodi, er y gellir neilltuo tasgau a chyfrifoldebau i gontractwyr neu 'bartneriaid strategol', na ellir dirprwyo'r ddyletswydd gyfreithiol ar gyfer iechyd a diogelwch.

### **Tân**

Mae ein mesurau diogelwch tân yn cynnwys atal achosion o dân a lliniaru'r difrod uniongyrchol a chanlyniadol drwy ganfod tanau yn gynnar, lleihau'r risg y bydd tân yn ymledu drwy fesurau ynysu strwythurol, darparu llwybrau dianc, gweithdrefnau gadael yr adeilad mewn argyfwng, a dulliau o ddiffodd a chanfod tân.

Mae rheoli risgiau tân yn golygu asesu'r risg o dân mewn safle a chymryd camau lliniaru i leihau'r tebygolrwydd o dân a'i ganlyniadau pe bai tân yn digwydd. Diben cymryd camau i reoli risgiau tân yw diogelu bywyd (fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith) a diogelu eiddo.

### **Cymorth Cyntaf**

Mae Heddlu De Cymru yn ymrwymedig i ddarparu cyfleusterau cymorth cyntaf addas a digonol, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981. Rydym wedi cymryd camau i ddarparu trefniadau cymorth cyntaf addas ar gyfer ein cyflogeion yn y gwaith ac ymwelwyr y gall ein gweithgareddau effeithio arnynt.

### **Cyfarpar a dillad diogelu personol**

Lle na ellir rheoli risgiau drwy dulliau eraill, yna mae'n rhaid i'r asesiad risg nodi'r angen am gyfarpar diogelu personol a'i safon

Bydd cyfarpar diogelu personol yn diogelu'r defnyddiwr rhag risgiau i iechyd a diogelwch

yn y gwaith. Gall gynnwys eitemau megis arfwisgoedd, helmedau diogelwch a hetiau caled, menig, cyfarpar diogelu'r llygaid, dillad gweledd uchel, esgidiau diogelwch a harneisiau diogelwch.

### **Prynu**

Bydd y broses asesu risg yn helpu i ddewis cyfarpar gwaith, sylweddau a gwasanaethau ac asesu eu haddasrwydd ar gyfer tasgau penodol.

Pan fydd Heddlu De Cymru yn prynu neu'n hurio cyfarpar a deunyddiau gwaith newydd, ystyrir goblygiadau eu defnyddio i lechyd a diogelwch. Mae'n rhaid cael gafael ar y cyfarpar a'r sylweddau mwyaf diogel sydd ar gael.

Mae'n rhaid cael gafael ar daflenni data diogelwch ar gyfer sylweddau ac, yn yr un modd, ddata technegol a chyfarwyddiadau ar gyfer cyfarpar gwaith. Defnyddir y data ar beryglon a risgiau a ddarperir er mwyn llywio a hyfforddi ein swyddogion a'n staff yn ôl yr angen.

### **Cyfarpar diogelwch**

Mae Heddlu De Cymru yn sicrhau bod yr holl gyfarpar a ddefnyddir wrth i ni wneud ein gwaith yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da, ei fod wedi'i wasanaethu yn ôl amserlenni'r gwneuthurwr a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Darperir gwybodaeth a hyfforddiant addas a digonol i alluogi'r swyddogion a'r staff i ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel.

Pan fydd arolygiadau statudol yn nodi nam sy'n peri risg uniongyrchol neu gyfredol o niwed personol difrifol, **rhaid rhoi'r gorau i ddefnyddio'r cyfarpar ar unwaith** a rhoi gwybod i'r tîm lechyd a Diogelwch drwy Fewnflwch GM- lechyd a Diogelwch.

**TYSTYSGRIFAU PRAWF** - Mae'n ofynnol bod Tystysgrifau Prawf yn gyfredol neu na ddefnyddir eitemau y mae eu tystysgrif wedi dod i ben nes iddynt gael un newydd

### **Pobl ifanc**

Mae Rheoliadau Rheoli lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr asesu risgiau i bob gweithiwr, gan gynnwys gweithwyr ifanc, a gwneud yr hyn sy'n rhesymol ymarferol i reoli'r risgiau hynny.

Mae'n ofynnol:

- Asesu'r risg i bobl ifanc, o dan 18 oed, cyn iddynt ddechrau gweithio
- Ystyried diffyg profiad, diffyg ymwybyddiaeth o risgiau presennol neu bosibl ac anaeddfedrwydd pobl ifanc
- Mynd i'r afael â ffactorau penodol yn yr asesiad risg
- Darparu gwybodaeth i rieni plant oedran ysgol am y risg a'r mesurau rheoli a gyflwynwyd
- Ystyried yr asesiad risg wrth benderfynu a ddylid gwahardd y person ifanc rhag gweithgareddau gwaith penodol, ac eithrio lle mae'r person ifanc dros yr isafswm oedran ar gyfer gadael yr ysgol ac mae'n angenrheidiol i'w hyfforddiant
- Lle caiff y risgiau eu lleihau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol
- Lle bydd person cymwys yn darparu goruchwyliaeth briodol

### **Trefniadau Rheoli Safleoedd**

## Asbestos

Mae Heddlu De Cymru (drwy'r Adran Ystadau) wedi arolygu pob ardal o'r safleoedd o dan ein rheolaeth er mwyn cadarnhau lleoliad a chyflwr deunyddiau sy'n cynnwys asbestos. Mae cynllun rheoli asbestos wedi cael ei ddatblygu er mwyn rheoli'r risg o ddod i gysylltiad ag asbestos, sy'n cynnwys cofrestrau asbestos ar gyfer pob un o'n hadeiladau (wrth ymyl y paneli rheoli larymau tân).

Os gall cyflogeion ddod i gysylltiad â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos, caiff hyfforddiant ymwybyddiaeth o asbestos ei gynnal a'i loywi. Caiff cyrsiau gloywi blynyddol gorfodol ei gynnal ar gyfer pob gweithiwr gan ddefnyddio technolegau dysgu cymwysedig (NCALT) a bydd hyfforddiant achrededig ychwanegol ar gyfer rolau penodol.

## Trydan yn y gwaith a Phrofi Dyfeisiau Cludadwy

Mae'r systemau trydanol sefydlog a ddefnyddir ar ein safleoedd wedi cael eu harchwilio, eu profi a'u hardystio gan contractwr trydanol cymwys. Mae'n rhaid cadw rhestr o gyfarpar a chofnodion o'r arolygiadau hyn.

Mae'n orfodol i bob swyddog ac aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant gloywi trydanol blynyddol drwy NCALT a chaiff hyfforddiant achrededig ychwanegol ei gynnal ar gyfer rolau penodol.

## Arolygiadau iechyd a diogelwch

Bydd Heddlu De Cymru yn rheoli ein safleoedd er mwyn darparu gweithle diogel. Byddwn yn cynnal y manau dod i mewn a gadael ac adeiladwaith adeiladau, yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda ac yn darparu trefniadau lles addas sy'n cynnwys dŵr poeth ac oer digonol, dŵr yfed, cyfleusterau misglwyf, cyfleusterau golchi dwylo, cyfleusterau ar gyfer bwyta a pharatoi bwyd, a gwres, golau ac awyru. Caiff y gweithle ei lanhau'n rheolaidd, ei gynnal a'i gadw, ei oleuo a'i awyru yn ddigonol.

Mae'n rhaid cynnal arolygiadau iechyd a diogelwch o safleoedd Unedau Rheoli Sylfaenol/adranau bob blwyddyn neu ar ôl cwblhau gwaith os cafwyd unrhyw newidiadau sylweddol.

## Trwyddedau i weithio

Lle nodir bod gwaith arfaethedig yn peri risg uchel, mae rheolaethau llym yn ofynnol. Mae system trwydded i weithio yn broses gofnodedig ffurfiol a ddefnyddir er mwyn rheoli gwaith y nodir y gall fod yn beryglus.

## Diffiniadau

- **Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol:** mae hyn yn golygu y gellir cydbwysu'r risg mewn gweithgaredd neu amgylchedd penodol â'r amser, y drafferth, y gost a'r anhawster ffisegol sy'n gysylltiedig â chymryd mesurau i osgoi'r risg
- **Cyn belled ag y bo'n ymarferol:** mae hyn yn awgrymu safon fwy llym. Mae'r ymadrodd hwn fel rheol yn cynnwys beth bynnag sy'n dechneogol bosibl yn sgil y wybodaeth gyfredol yr oedd gan y person dan sylw neu y dylai fod wedi bod gan y person dan sylw ar y pryd. Ni ddylid ystyried y gost, yr amser na'r drafferth sy'n gysylltiedig.
- **Ymarferol gorau:** gall hyn amrywio yn dibynnu ar ei gyd-destun a mater i'r llysoedd benderfynu arno ydyw yn y pen draw. Pan fydd y gyfraith yn pennu y dylid defnyddio'r "dulliau ymarferol gorau", bydd yr awdurdod rheoleiddio fel arfer yn nodi ei farn ar yr hyn sy'n ymarferol mewn nodiadau neu hyd yn oed cytundebau â chwmnïau neu ddiwydiannau penodol.

**DEDDFWRIAETH A RHEOLEIDDIO:**

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (etc) 1974.  
<http://www.hse.gov.uk/legislation/hswa.htm>
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999